Friends of the Earth Cymru
Cyfeillion y Ddaear Cymru

Bil drafft Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) - cyflwyno tystiolaeth gan Gyfeillion y Ddaear Cymru

18/08/2022

Annwyl Syr/Madam,

Hoffai Cyfeillion y Ddaear Cymru wneud sylw am un o'r eithriadau yn yr adran 'bag cario', sef:
**(d) cynhyrchion meddyginiaethol neu offer rhestredig a gyflenwir yn unol â phresgripsiwn a roddir gan weithiwr iechyd proffesiynol;**

Ein barn ni yw nad oes angen yr eithriad hwn ac y dylid ei ddileu.

Fe ymchwiliom i'r mater hwn yn 2019. https://foe.cymru/cy/fferyllfeydd-yng-nghymru-yn-defnyddio-miliynau-o-fagiau-plastig

Mae fferyllfeydd yn parhau i fod yn gyfrifol am ddosbarthu miliynau o'r bagiau plastig bach hyn bob blwyddyn. Mae eu maint bach hefyd yn golygu na ellir eu hail-ddefnyddio o gwmpas y cartref i unrhyw ddefnydd arall.

Mae rhai fferyllfeydd wedi dechrau rhoi meddyginiaeth bresgripsiwn mewn bagiau papur bach, sy'n haws eu hailgylchu'n effeithiol a hefyd yn cael eu gwneud o bapur sydd eisoes wedi'i ailgylchu. Gan mai preifatrwydd yw'r broblem gyda'r bagiau presgripsiwn hyn, nid oes unrhyw reswm gwirioneddol fod angen eu gwneud o blastig, mae papur yn gweithio cystal.

Yn ystod ein gwaith, daethom ar draws rhai dadleuon a gyflwynwyd yn draddodiadol gan rai fferyllfeydd dros beidio â newid i fagiau papur. Ymgynghorwyd â fferyllwyr annibynnol, yn ogystal â rhai a oedd yn gweithio i rai o'r cadwyni fferyllfa mwyaf i gael eu barn ar y dadleuon hyn…

Preifatrwydd – y ddadl oedd nad oedd bagiau papur yn rhoi'r un preifatrwydd â rhai plastig – canfuom NA allwn 'ddarllen drwy'r papur' fel sy'n cael ei honni. Ceir tystiolaeth o hyn gan rai fferyllfeydd annibynnol a rhai mwy fel Boots, sydd heb gael unrhyw broblem gyda defnyddio bagiau papur.

Cryfder y bagiau – y ddadl oedd nad yw bagiau papur yn ddigon cryf i ddal potel drom o feddyginiaeth – cadarnhaodd fferyllwyr y buom yn siarad â nhw fod bagiau papur meddyginiaeth i'w cael mewn meintiau gwahanol (bach, canolig a mawr) ac felly yn ddigon cryf ar gyfer eitemau trymach. Unwaith eto, gwelwyd tystiolaeth o hyn gan rai fferyllfeydd sydd eisoes yn eu defnyddio heb unrhyw broblem o gwbl.

Fodd bynnag, yr hyn a sylweddolom oedd mai'r gwir resymau pam nad oedd rhai fferyllfeydd yn defnyddio bagiau papur oedd bod fferyllfeydd unigol yn cael eu hystyried gan rai o'r cadwyni mawr yn 'sbôcs', ac yn fannau lle caiff presgripsiynau eu paratoi i'w dosbarthu. Mae'r 'canolfannau' canolog hyn bellach wedi'u cynllunio i ddefnyddio bagiau plastig yn unig yn hytrach na rhai papur. O

ystyried yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy wahardd rhai SUP's, (lleihau ein heffaith ar ein planed mewn amrywiaeth eang o ffyrdd), nid yw'r ffaith bod y canolfannau canolog hyn wedi'u cynllunio ar gyfer bagiau plastig yn hytrach na bagiau papur yn rheswm digon dilys i beidio â newid.

Y prif reswm arall a ganfuwyd gennym o'n trafodaethau â'r rhai yn y sector yw bod y silffoedd storio sydd ganddynt ar y safle ar gyfer presgripsiynau sy'n aros i gael eu casglu wedi'u cyfnewid dros y blynyddoedd am reiliau gyda chlipiau arnynt. Mae'n rhain wedi'u dylunio i ddal bagiau plastig yn hytrach na rhai papur. Unwaith eto, ni ddylai dyluniad silffoedd mewn rhai fferyllfeydd fod yn rheswm i beidio â chynnwys bagiau presgripsiwn yn y Bil hwn.

Nid yw Cyfeillion y Ddaear Cymru yn credu bod y dull a ffafrir o fagio mewn 'canolfan' ddosbarthu a rheiliau storio fferyllol yn rhesymau cymhellol a dilys dros eithriad yn y Bil hwn. O ystyried maint y broblem blastig a'r allyriadau hinsawdd sy'n gysylltiedig â defnydd plastig, ni allwn adael i rai unigolion yn y sector hwn ddefnyddio dadleuon annilys ynghylch preifatrwydd a chryfder bagiau, yn enwedig gan fod rhai fferyllfeydd eisoes yn defnyddio bagiau papur heb unrhyw broblem.

Efallai mai newid bach yn unig ydyw yn y Bil, ond mae'n un y teimlwn fod angen ei wneud gan ei fod yn helpu i ddangos y bydd ceisiadau am eithriadau'n cael eu herio'n fwy trylwyr.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru felly yn argymell bod yr eithriad arfaethedig ar gyfer bagiau presgripsiwn plastig yn cael ei dynnu'n ôl a bod y bagiau SUP hyn hefyd yn cael eu gwahardd yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir

Bleddyn Lake